# Polisi Rhyddid Gwybodaeth

| Diw. | Dyddiad | Pwrpas Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid | Asesu Effaith Cydraddoldeb wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|
| 1. | Tachwedd 2005 | Cyhoeddwyd Gyntaf | |
| 2. | 15 Mehefin 2012 | Diwygiwyd a Diweddarwyd | |
| 3. | 5ed Hydref 2015 | Diwygiwyd a Diweddarwyd | 1af Rhagfyr 2015 |
| 4. | 1af Chwefror 2016 | Cymeradwywyd newid bychan | |
| 5. | 3ydd Mehefin 2019 | Diwygiwyd a Diweddarwyd | |
| 6. | 19 Gorffennaf 2021 | Diwygiwyd a Diweddarwyd: newid Swyddog Rhyddid Gwybodaeth | |

| Swyddog Polisi | Uwch Swyddog Cyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu | Prif Swyddog Gweithredol | Grŵp Tasg Cydymffurfio | 19 Gorffennaf 2021 |

*Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd*

**Polisi Rhyddid Gwybodaeth**

Mae Prifysgol Bangor yn cymryd ei chyfrifoldebau o ran rheoli gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gwbl o ddifrif. Yn y ddogfen hon ceir fframwaith y polisi ar gyfer cyflawni ac archwilio'r rheolaeth effeithiol hon.

1. **Cwmpas y Polisi**

Diben y polisi hwn yw sicrhau y cedwir at ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac yn neilltuol:

- bod swm sylweddol o wybodaeth a gyhoeddir yn rheolaidd am y Brifysgol ar gael i'r cyhoedd fel mater o drefn, a'i fynegeio trwy Cynllun Cyhoeddi a Canllaw i Wybodaeth y Brifysgol;
- bod gwybodaeth arall nad yw wedi ei chynnwys yn y Cynllun Cyhoeddi ar gael yn hwylus os gofynnir amdani ac yr ymdrinnir yn ddi-oed â cheisiadau o'r fath; ac
- mewn achosion lle mae gwybodaeth wedi ei heithrio, bod cwestiwn rhyddhau'r wybodaeth dan sylw ai peidio yn cael ei ystyried ar y lefel briodol o fewn y Brifysgol.

**2. Cyfrifoldebau**

**[a] Cyfrifoldebau'r Brifysgol**

Mae'r brifysgol yn gyfrifol am sefydlu polisïau a threfniadau, a sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael, er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

**[i] Grŵp Tasg Cydymffurfio**

Y Grŵp Tasg Cydymffurfio sy'n gyfrifol am ddatblygu, gweithredu ac adolygu Polisi Rhyddid Gwybodaeth y brifysgol. Cadeirir y Grŵp Tasg Cydymffurfio gan y Prif Swyddog Gweithredol ac mae'n adrodd i Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol.

**[ii] Swyddog Rhyddid Gwybodaeth y Brifysgol**

- Bydd y Grŵp Tasg Cydymffurfio yn enwebu person priodol i weithredu fel Swyddog Rhyddid Gwybodaeth y brifysgol; bydd yr unigolyn hwnnw yn ddigon gwybodus ac ar lefel ddigon uchel yn y brifysgol.
- Y Rheolwr Cyfreithiol a Chydymffurfio o fewn Gwasanaethau Llywodraethu yw'r Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a enwebwyd gan y brifysgol.
- Bydd y Brifysgol yn gwneud trefniadau i roi gwybod i'r holl staff, myfyrwyr, contractwyr a gwirfoddolwyr pwy yw Swyddog Rhyddid Gwybodaeth y brifysgol a bydd hefyd yn tynnu'u sylw at y polisi hwn a'r ddogfennaeth gysylltiedig. Y Swyddog Rhyddid Gwybodaeth sy'n gyfrifol am lunio arweiniad a hyrwyddo cydymffurfiad â'r polisi hwn yn y fath ffordd ag i sicrhau bod modd cael gafael ar wybodaeth yn rhwydd, yn gyflym ac mewn modd priodol.
- Mae gan y Swyddog Rhyddid Gwybodaeth yr hawl i fynd at yr holl ddogfennau perthnasol (yn eu fformat gwreiddiol, heb eu hadolygu) yn ymwneud â chais cydymffurfio cyfreithiol, a'r Swyddog Rhyddid Gwybodaeth (mewn ymgynghoriad, pan fo angen, â'r uwch swyddogion perthnasol) a fydd yn gwneud y penderfyniadau ynghylch pa wybodaeth sy'n cael ei rhyddhau neu ei heithrio.

**[b] Cyfrifoldebau Deoniaid Colegau, Penaethiaid Ysgol a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol**

Deoniaid colegau, penaethiaid ysgol a chyfarwyddwyr gwasanaethau proffesiynol sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiad â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn eu meysydd cyfrifoldeb, ac am sicrhau bod gofynion y polisi hwn yn cael eu tynnu i sylw staff, a fod gweithdrefnau priodol mewn lle i sicrhau cydymffurfiaeth.

Rhaid i ddeoniaid colegau, penaethiaid ysgol a chyfarwyddwyr gwasanaethau proffesiynol sicrhau bod yr holl aelodau staff newydd o staff yn cael cyflwyniad dechreuol ar y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a bod aelodau staff perthnasol o fewn eu cylchoedd cyfrifoldeb yn cael cyrsiau gloywi ar gydymffurfio â rhyddid gwybodaeth (ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg trwy gysylltu â'r Gwasanaeth Llywodraethu).

**[c] Cyfrifoldebau staff**

Mae cydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a gofynion y polisi hwn yn gyfrifoldeb i'r holl staff, ac mae'n ddyletswydd ar staff sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u hymrwymiadau o dan y ddeddf.

Mae canllawiau pellach ar ofynion y Ddeddf a'r gweithdrefnau perthnasol i gydymffurfio â'r polisi hwn ar gael gan y Rheolwr Cyfreithiol a Chydymffurfio neu ar we-dudalennau y Gwasanaeth Llywodraethu.

**[d] Contractwyr, Staff Achlysurol a Staff Gwirfoddol**

Rhaid i ddeoniaid colegau, penaethiaid ysgolion a chyfarwyddwyr gwasanaethau proffesiynol sy'n cyflogi contractwyr, staff achlysurol neu staff gwirfoddol sicrhau fod yr unigolion yma yn ymwybodol o'u hymrwymiadau o dan y ddeddf a gofynion y polisi hwn.

Dylid gosod cymal rhyddid gwybodaeth safonol y brifysgol (sy'n Atodiad i'r Polisi hwn) ym mhob contract prifysgol, lle mae hyn yn ymarferol.

**3. Cynllun Cyhoeddi'r Brifysgol**

Swyddog Rhyddid Gwybodaeth y brifysgol sy'n gyfrifol am sicrhau bod cynllun cyhoeddi'r brifysgol yn cydymffurfio â gofynion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'i fod yn cael ei ddiweddaru a'i adolygu'n rheolaidd. Mae Cynllun Cyhoeddi'r Brifysgol ar gael ar we-dudalennau'r Brifysgol.

Mabwysiadodd Prifysgol Bangor Gynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth wrth baratoi Cynllun Cyhoeddi'r Brifysgol.

Yn y Cynllun Cyhoeddi nodir:

- pa wybodaeth y bydd y Brifysgol yn ei darparu'n gyffredinol i'r cyhoedd fel mater o drefn
- sut y bydd yn gwneud hynny, a
- a fydd y wybodaeth hon ar gael yn rhad ac am ddim ynteu a godir tâl amdani.

**4. Ceisiadau Penodol am Wybodaeth**

Gellir mynd at wybodaeth nad yw ar gael yng Nghynllun Cyhoeddi'r Brifysgol trwy wneud cais penodol am wybodaeth. Yn hyn o beth mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn sefydlu dwy hawl sy'n gysylltiedig â'i gilydd:

- yr hawl i gael gwybod a ydyw'r wybodaeth yn bodoli ai peidio,
- yr hawl i dderbyn y wybodaeth (yn amodol ar eithriadau)

Gall unrhyw bersonau drwy'r byd ddefnyddio'r hawliau hyn. Y Cynorthwyydd Cyfreithiol a Chydymffurfio, ar ran y Rheolwr Cyfreithiol a Chydymffurfio fydd yn ymdrin â'r ceisiadau penodol hyn am wybodaeth nad yw wedi ei chynnwys yn y cynllun cyhoeddi.

Mae'n rhaid i bob cais fod mewn ffurf barhaol (er enghraifft, llythyr neu e-bost) ac efallai y codir tâl am ddelio ag unrhyw gais, fodd bynnag bydd y sawl sy'n gwneud cais yn cael gwybod yn fuan yn y broses, a bydd y Cynorthwyydd Cyfreithiol & Chydymffurfio yn cynnig cyngor a chymorth i gynorthwyo'r sawl sy'n gwneud cais i gyflwyno cais fydd yn cael ei drin yn rhad ac am ddim. Ni fydd hawl gan rai sy'n gwneud cais i dderbyn gwybodaeth sydd wedi ei heithrio o dan y Ddeddf. Fodd bynnag, dim ond y darnau penodol hynny o wybodaeth sydd wedi eu heithrio fydd yn cael eu dal yn ôl, a bydd gwybodaeth sy'n cael ei heithrio yn cael ei hadolygu gan y Rheolwr Cyfreithiol a Chydymffurfio, mewn trafodaeth gyda'r uwch swyddog priodol.

Mae'n rhaid i'r Brifysgol ymateb i unrhyw gais o fewn 20 diwrnod gwaith, er y gellir gofyn am fanylion pellach rhesymol er mwyn adnabod a dod o hyd i'r wybodaeth. Os gofynnir am ffi caiff y cyfnod o 20 diwrnod gwaith ei ymestyn i hyd at 3 mis hyd nes caiff y ffi ei thalu.

**5. Y Broses apelio**

[a] Mae'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan Adran 45 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i sefydlu trefn apelio i sicrhau y gall ymgeiswyr ofyn am adolygiad mewnol os nad ydynt yn fodlon â'r ffordd y mae'r awdurdod cyhoeddus wedi delio â'u cais.

[b] Yn unol â chyfarwyddyd o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, mae'n rhaid i gais am apêl gael ei gyflwyno o fewn dau fis i ymateb terfynol y Brifysgol i gais a wnaed dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Dylid gwneud cais am apêl, yn y lle cyntaf, at info-compliance@bangor.ac.uk bydd aelod o staff yn trafod y cais gyda'r Rheolwr Cyfreithiol a Chydymffurfio, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud os yw'r apêl yn cael ei delio a hi gan uwch aelod o staff heb wybodaeth flaenorol o'r cais (Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu fel arfer), neu os yw'r cais yn cael ei delio a hi gan y Panel Adolygu (fel yr amlinellir yn adran [c] isod). Bydd y penderfyniad os yw'r cais yn cael ei ddelio a gan uwch aelod o staff neu gan y Panel yn cael ei wneud gan y Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu, yn dibynnu ar natur a chymhlethdod y cais. Ar ôl i'r cais am apêl gael ei dderbyn bydd y sawl sy'n gwneud y cais yn derbyn cydnabyddiaeth ac yn cael syniad o ba bryd y gallant ddisgwyl cael ymateb.

[c] <u>Panel Adolygu</u>

Gall panel adolygu gael ei ymgynnull i ystyried unrhyw apêl yn dilyn ymateb y Brifysgol i ymateb a wnaed dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Fel rheol, bydd y panel adolygu yn cynnwys tri uwch aelod staff, gydag un fel rheol yn Bennaeth Gwasanaethau Llywodraethu, a dylai ddarparu dull teg a diduedd o adolygu penderfyniadau a wnaed yn ystod y penderfyniad gwreiddiol i ryddhau gwybodaeth ai peidio.

[d] Bydd adolygiadau mewnol pa un bynnag ddull yn ystyried y wybodaeth a ryddhawyd yn ôl y wybodaeth y gofynnwyd amdani a byddant yn adolygu'r papurau yn gysylltiedig â'r cais

gwreiddiol, gall hyn gynnwys trafod y penderfyniad gwreiddiol gydag aelodau staff a oedd yn gysylltiedig â'r cais.

[e] Yn unol ag argymhellion o'r Adran Materion Cyfansoddiadol, nod y Brifysgol yw ymdrin â cheisiadau syml am apêl o fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn y cais, ac yn anelu at ymdrin ag adolygiadau mwy cymhleth, fel ailystyried y prawf lles y cyhoedd, o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y cwyn. Rhoddir gwybod i'r sawl sy'n gwneud y cais pe rhagwelir y byddai'r apêl yn cymryd mwy nag 20 diwrnod gwaith.

[f] Os yw ymgeiswyr yn anfodlon â chanlyniad y broses apelio gallent ofyn am adolygiad annibynnol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## 6. Ffioedd

Oni nodir fel arall, ni chodir tâl am wybodaeth a ddarperir trwy Gynllun Cyhoeddi'r Brifysgol.

Yn unol â'r Ddeddf mae gan y Brifysgol hawl i godi tâl am ddelio â chais penodol am wybodaeth nad yw wedi ei restru yn y cynllun cyhoeddiadau, os yw'n debygol fod y cais hwnnw am gymryd mwy na 2.5 diwrnod i ganfod, didoli a golygu dogfennau (sef cost o £450 wedi ei gyfrifo ar £25 yr awr). Fodd bynnag mewn achosion lle byddai'r cais yn denu tal bydd y Brifysgol yn cynnig cyngor a chymorth yn gyntaf.

## 7. Eithriadau o dan y Ddeddf

Gall y brifysgol benderfynu fod rhai mathau o wybodaeth sydd ganddi yn wybodaeth wedi ei heithrio o dan y Ddeddf. Lle gwneir cais am wybodaeth sy'n cynnwys eithriadau, bydd y brifysgol yn ystyried y prawf rhagfarn a'r prawf lles y cyhoedd ac, mewn rhai amgylchiadau, gall beidio â datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Ceir 23 o eithriadau o dan y Ddeddf. Gyda rhai eithriadau gellir ystyried a ddylid datgelu'r wybodaeth er lles y cyhoedd, tra bo eraill yn eithriadau llwyr. Ceir y rhestr lawn o eithriadau yn Atodiad 1 y polisi hwn.

## 8. Cysylltiadau

**Rheolwr Cyfreithiol a Chydymffurfio / Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a enwebwyd**
Gwasanaethau Llywodraethu
Prifysgol Bangor
Ffordd y Coleg
Bangor
Gwynedd LL57 2DG

Ffôn: +01248 38 2413
E-bost: info-compliance@bangor.ac.uk

**ATODIAD 1**

Rhestr eithriadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

**A. Eithriadau lle'r ystyrir lles y cyhoedd:**

**a22** Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol
**a24** Diogelwch cenedlaethol
**a26** Amddiffyn
**a27** Cysylltiadau rhyngwladol
**a28** Cysylltiadau o fewn y Deyrnas Unedig
**a29** Yr economi
**a30** Ymchwiliadau a thrafodion a gynhaliwyd gan awdurdodau cyhoeddus
**a31** Gweithredu'r gyfraith
**a33** Swyddogaethau archwilio
**a35** Llunio polisi llywodraeth, etc
**a36** Niweidiol i gynnal materion cyhoeddus yn effeithiol (ac eithrio gwybodaeth a ddelir gan Dy'r Cyffredin neu Dy'r Arglwyddi)
**a37** Cyfathrebiadau â'i Mawrhydi, etc., ac anrhydeddau
**a38** Iechyd a Diogelwch
**a39** Gwybodaeth amgylcheddol
**A40** Gwybodaeth bersonol (Dim ond lle mae'r wybodaeth yn ymwneud â thrydydd parti a bod rhybudd a.10 o dan Ddeddf Gwarchod Data 1998 yn berthnasol i'r wybodaeth honno)
**a42** Braint broffesiynol gyfreithiol
**A43** Buddiannau masnachol

**B. Yr eithriadau llwyr**

Os yw'r eithriadau hyn yn berthnasol nid oes angen mynd ymlaen i ystyried a ydyw'r datgeliad er lles y cyhoedd ai peidio.

**a21** Gwybodaeth y gall ymgeiswyr ei chael trwy ddulliau eraill
**a23** Gwybodaeth a ddarparwyd gan gyrff sy'n ymwneud â diogelwch neu'n gysylltiedig â'r cyrff hynny
**a32** Cofnodion llysoedd, etc
**a34** Seneddol
**a36** Niweidiol i gynnal materion cyhoeddus yn effeithiol (yn berthnasol yn unig i wybodaeth a ddelir gan Dy'r Cyffredin neu Dy'r Arglwyddi)
**A40** Gwybodaeth bersonol (lle mae'r ymgeisydd yn wrthrych y wybodaeth)
**a41** Gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol
**a44** Gwaharddiadau ar ddatgelu lle gwaherddir datgelu gan ddeddfiad neu lle byddai'n cael ei ystyried yn achos o ddirmyg llys

**ATODIAD 2**

**Cymal Rhyddid Gwybodaeth Prifysgol Bangor**

Deddfwriaeth a Rheoliadau
Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd);
Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd);

Cymalau

1. Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a Rhyddid Gwybodaeth

1.2 Mae'r Cwmni'n cydnabod bod y Brifysgol yn dod dan ofynion y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a bydd yn cynorthwyo a chydweithio gyda'r Brifysgol i alluogi'r Brifysgol i gydymffurfio ag unrhyw ofynion datgelu gwybodaeth.

1.2 Pan fydd y Brifysgol yn cael cais i ddatgelu unrhyw wybodaeth sydd, yn ôl y Cytundeb hwn, yn Wybodaeth Gyfrinachol y Cwmni, bydd yn hysbysu'r Cwmni ac yn ymgynghori â'r Cwmni. Bydd y Cwmni yn ymateb i'r Brifysgol o fewn 5 niwrnod gwaith wedi iddo dderbyn rhybudd y Brifysgol am y cais. Os digwydd i'r Cwmni beidio ag ymateb o fewn y cyfnod sydd yn ofynnol ceidw'r Brifysgol yr hawl i ddatgelu unrhyw wybodaeth o'r fath y tybia ei bod yn briodol i'w datgelu.

1.3 Bydd y Brifysgol yn gyfrifol am benderfynu, yn ôl ei doethineb llwyr ei hun, p'un a yw'r wybodaeth:

1.3.1 wedi ei heithrio rhag ei datgelu yn unol â'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol neu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth;

1.3.2 i'w datgelu mewn ymateb i gais am wybodaeth o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol neu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac ni fydd y Cwmni o dan unrhyw amgylchiadau yn ymateb yn uniongyrchol i gais am wybodaeth oni chaiff ei awdurdodi'n benodol i wneud hynny gan y Brifysgol.

1.4 Mae'r Cwmni'n cydnabod y gall y Brifysgol fod dan orfodaeth o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol neu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i ddatgelu gwybodaeth wedi ymgynghori â'r Cwmni ac wedi ystyried ei farn.